

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, MA.  
Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro – Interim  
Managing Director

CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGEFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR ARCHWILIO	AUDIT COMMITTEE	
DYDD MAWRTH, 4 CHWEFROR 2014 am 2.00 o'r gloch y prynhawn	TUESDAY, 4 FEBRUARY, 2014 at 2:00 p.m.	
YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI	COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI	
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518	Committee Officer

## AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

### Annibynnol / Independent

Jim Evans, Dafydd Rhys Thomas a Richard Owain Jones

### Plaid Cymru / The Party of Wales

T LI Hughes (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), John Griffith a Vaughan Hughes

### Heb Ymaelodi/Unaffiliated

R LI Jones (Cadeirydd/Chair) a Raymond Jones

## **ALEODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Mrs Sharon Warnes a Mr Richard Barker

## R H A G L E N

### **1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw aelod neu swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

### **2 COFNODION CYFARFOD 11 RHAGFYR, 2013** (Tudalennau 1 - 8)

Bydd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2013 yn cael eu cyflwyno i'w cadarnhau.

### **3 FFRAMWAITH RHAGLEN TRAWSNEWID**

Derbyn cyflwyniad gan y Dirprwy Brif Weithredwraig ar Fframwaith y Rhaglen Drawsnewid.

### **4 LLYWODRAETHU GWYBODAETH**

Adrodd i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr, 2014 benderfynu fel a ganlyn yng nghyswilt y pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr mewn perthynas â Llywodraethu Gwybodaeth:

**“PENDERFYNWYD cyfeirio pryderon y Pwyllgor Archwilio i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, gyda chais eu bod yn cyflwyno adroddiad statws i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth.”**

### **5 UNED CYNNAL A CHADW ADEILADAU'R GWASANAETH TAI** (Tudalennau 9 - 12)

Derbyn diweddariad pellach ar gynnydd ar drawsnewid y gwasanaethau a gyflenwir gan Uned Cynnal a Chadw Adeiladau'r Gwasanaeth Tai.

### **6 RHEOLI TRYSORLYS CHWARTER 3** (Tudalennau 13 - 24)

Cyflwyno adroddiad Rheoli Trysorlys Chwarter 3 2013/14.

### **7 STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2014/15**

Cyflwno'r Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2014/15. (*Adroddiad Hwyr*)

### **8 ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH PERFFORMIAD** (Tudalennau 25 - 28)

Derbyn diweddariad Archwilio Allanol ar y Rhaglen Waith Perfformiad. (*Fersiwn Saesneg yn unig*)

### **9 ARCHWILIO ALLANOL - LLYTHYR ASESIAD GWELLA 2** (Tudalennau 29 - 32)

Derbyn Llythyr Asesiad Gwella 2.

### **10 STAFF ASIANTAETH**

Derbyn adroddiad ar lafar gan y Rheolwr Archwilio.

## Y PWYLLGOR ARCHWILIO

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2013

<b>YN BRESENNOL:</b>	Y Cyngorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)  Y Cyngorwyr Jim Evans, John Griffith, Richard Owain Jones, Dafydd Rhys Thomas  Aelodau Lleyg: Mrs Sharon Warnes, Mr Richard Barker
<b>WRTH LAW:</b>	Prif Weithredwr Dirprwy Brif Weithredwr Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Corfforaethol Cynaliadwyedd (ar gyfer eitem 5) Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) (ar gyfer eitem 3) Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai) (ar gyfer eitem 4) Pennaeth Gwasanaeth (EWT) (ar gyfer eitem 8) Rheolwr Archwilio (JF) Rheolwr Prosiect (EC) (ar gyfer eitem 5) Swyddog Pwyllgor (ATH)
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Y Cyngorydd Trefor Lloyd Hughes
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Mr Patrick Green (RSM Tenon), Mr Andy Bruce (Swyddfa Archwilio Cymru), Mr Ian Davies (PwC)

1

#### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes ddiddordeb mewn perthynas ag eitem 10 ar yr agenda fel Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor Archwilio ac nid oeddent yn bresennol pan drafodwyd y mater.

#### 2 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Medi, 2013 fel rhai cywir.

#### 3 LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Cyflwynwyd adroddiad diweddar gan y Pennaeth Swyddogaeth (Cyngor Busnes) yn crynhoi'r cynnydd hyd yma o ran bwrw ymlaen â'r Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth..

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a SIRO ar gyd-destun a chefndir i sefydlu'r Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth, ynghyd â gofynion y ddeddfwriaeth Diogelu Data sy'n sail i'r prosiect mewn perthynas â phrosesu cyfreithlon o ddata personol. Daeth y Swyddog â'r materion canlynol i sylw'r Aelodau -

- Mae'r Cynllun Gweithredu DPA ar gyfer Gwella yn cynnwys yr holl weithgarwch rheoleiddio blaenorol o ran Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli.
- Y Bwrdd Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth, fel rhan o raglen Trawsnewid Busnes y Cyngor, yw'r cyfrwng ar gyfer cyflawni'r Cynllun Gweithredu a dechreuodd y gwaith ym mis Tachwedd, 2013.Y dyddiad targed i gwblhau yw Awst, 2014 pan fydd yn cael ei ddisodli gan grŵp o swyddogion i sicrhau cydymffuriaeth barhaus
- Bydd yr archwiliad o gydymffurfiad y Cyngor â'r Ddeddf Diogelu Data gan Swyddog y Comisiynydd Gwybodaeth yng Ngorffennaf 2103 yn cael ei ailadrodd yn y dyfodol agos a gallai methu â gweithredu ar newid arwain at gymryd camau gorfodi yn erbyn y Cyngor.
- Bydd gweithredu ar argymhellion yr ICO ers ei archwiliad Gorffennaf 2013 yn lliniaru peryglon o dorri'r Ddeddf yn ddifrifol. Mae'r rhain wedi cael eu distyllu i bum thema allweddol.
- Mae capasiti wedi'i roddi i bwrpas rheoli'r prosiect ar gyfer TGCh, Adnoddau Dynol a DP / Cymorth Cyfreithiol.
- Mae absenoldeb y Swyddog Gweithredol Arweiniol a Rheolwr Prosiect dynodedig wedi rhwystro cynnydd. Gwnaed trefniadau dros dro i sicrhau symudiad ar y Cynllun Gweithredu gyda ffocws arbennig ar gamau a amserwyd ar gyfer mis Tachwedd a mis Rhagfyr.
- Mae pedwar polisi craidd wedi cael eu paratoi a'u cymeradwyo gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth - Polisi Torri Data, Polisi Asesu Effaith ar Breifatrwydd, Polisi Dosbarthiad Data Personol a Risg Gwybodaeth.
- Mae adolygiad o argymhellion sy'n weddill o adroddiadau rheoleiddio blaenorol wedi ei gwblhau a chawsant eu cymhathu yn y Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth, neu fel arall byddant yn cael eu hychwanegu ato cyn ei gau.
- Mae adolygiad o dempled contract safonol yr Awdurdod mewn perthynas â thrydydd parti sy'n gwneud gwaith i'r Awdurdod yn cael ei gynnal ac ar ôl cwblhau'r gwaith hwnnw, bydd raid i'r gwasanaethau adolygu ac ail-negodi eu contractau presennol i sicrhau eu bod yn cynnwys darpariaethau a thelerau diogelu data.
- Mae rhai camau gweithredu heb eu cymryd neu heb gychwyn. Mae'r rhain yn ymwneud â TGCh ac Eiddo ac yn gysylltiedig â mynediad a diogelwch, a threfniadau storio. Mae goblygiadau o ran adnoddau i'r olaf.
- Gellir rhoddi sicrwydd bod trefniadau priodol wedi eu rhoi ar waith drwy'r prosiect a bod cynnydd wedi'i wneud yn erbyn targedau yn y Cynllun Gweithredu. Ar hyn o bryd mae peth pryder yn parhau mewn perthynas â rhai llinellau amser yng nghyswilt rhai agweddau ar y gwaith na ddechreuwyd arno.
- Mae amserlen y prosiect yn creu peth hyblygrwydd i bwrpas ymdopi gyda llithriad. Fodd bynnag, mae'r Prosiect yn cael ei gynllunio i fod yn incrementaidd a bydd unrhyw lithriad ychwanegol gyda'r rhannau na chânt eu cwblhau mewn pryd yn effeithio ar rannau dilynol eraill o'r gwaith.
- Bydd y Bwrdd Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth yn cyfarfod nesaf ar 9 Ionawr. Bydd adroddiad statws yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Trawsnewid Busnes.

Rhoes aelodau'r Pwyllgor Archwilio ystyriaeth i'r wybodaeth a gwneud y pwyntiau canlynol -

- P'un a oedd y tasgau a nodir yn y Cynllun Gweithredu wedi cael perchnogion dynodedig i hwyluso a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni. Nodwyd bod y camau gweithredu a'r cyfrifoldeb amdanyst yn mynd yn fwyfwy gwasgaredig wrth eu gyrru allan i'r gwasanaethau.
- A yw'r Pwyllgor Archwilio yn gallu gwneud cyfraniad i sicrhau bod camau allweddol yn cael eu hadfer i gydymffurfio â'r amserlen.
- A yw'r prosiect yn cael digon o adnoddau i sicrhau bod y materion a nodwyd fel rhai angen gweithredu arnynt yn cael sylw'n gyflym ac yn llawn.
- Pryderon yngylch caniatáu i bethau ddirywio cymaint dros amser.
- P'un a ydyw'r toriadau wedi digwydd oherwydd diffyg hyfforddiant ar ofynion diogelu data neu o ganlyniad i esgeulustod a diystyr.
- Yr angen gwirioneddol i Benaethiaid Gwasanaeth gymryd y cyfrifol am ddiogelu data.
- Bod mynd i'r afael â materion diogelu data a rhoi mesurau diogelu ar waith yn fater o flaenoriaeth.

- Y posibilrwydd o gymryd camau disgyblu mewn ymateb i ac / neu fel arf ataliol yn erbyn toriadau yn y dyfodol.
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn cael gwybod am bryderon y Pwyllgor Archwilio yngylch y sefyllfa a'i farn am yr angen i flaenoriaethu materion diogelu data o ran amser ac adnoddau; ystyried camau disgyblu fel opsiwn i ymateb i unrhyw doriadau diogelu data yn y dyfodol, darparu hyfforddiant i'r holl staff ar yr ystod o bolisiau diogelu data, atgoffa Pennethiaid Gwasanaeth am eu cyfrifoldebau o ran diogelu data.

Ymatebodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) i'r pwyntiau a wnaed gan ymhelaethu ar y camau gweithredu presennol ac arfaethedig ac ar y deilliannau disgwyliedig gan egluro beth oedd natur y tasgau hynny na ddechreuwyd arnynt ac ar risgau sydd ynghlwm wrthynt.

Dyweddodd y Prif Weithredwr bod materion capaciti yn hanesyddol wedi bod yn ffactor wrth fynd i'r afael â materion cydymffurfio â gwarchod data. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ymateb yn gadarnhaol i ofynion o ran cryfhau'r gallu i sicrhau bod y diffygion a nodwyd yn cael sylw. Yn gyffredinol roedd angen newid meddylfryd o fewn yr Awdurdod yn gorfforaethol fel bod cydymffurfio â gofynion diogelu data yn dod yn rhan annatod o waith yr Awdurdod ar draws yr holl wasanaethau.

#### **Penderfynwyd -**

- *Nodi'r adroddiad a'r diweddariad a ddarparwyd.*
- *Cyfeirio pryeron y Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â chydymffurfiad Diogelu Data o fewn yr Awdurdod i'r Pwyllgor Gwaith gyda chais iddo ystyried a rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio ar y materion canlynol -*

- **Bod lefel briodol o adnoddau yn cael ei dyrannu i sicrhau bod diffygion o ran cydymffurfio â diogelu data yn cael eu cywiros yn llawn ac yn briodol.**
- **Bod camau disgyblu yn cael eu hystyried fel dewis wrth ymateb i unrhyw doriadau diogelu data yn y dyfodol.**
- **Bod staff yr Awdurdod yn cael hyfforddiant ar bob polisi diogelu data.**
- **Bod yr holl Benaethiaid Gwasanaeth yn cael eu hatgoffa am eu cyfrifoldebau diogelu data o fewn eu gwasanaethau eu hunain a phwysigrwydd hynny.**

**GWEITHREDU YN CODI: Cyflwyno pryeron y Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Gwaith gyda chais am ymateb.**

#### **4 UNED CYNNAL A CHADW TAI**

Cyflwynwyd i'w ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai) yn amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn ar drawsnewid y gwasanaethau a ddarperir gan Uned Cynnal a Chadw Adeiladau'r Gwasanaethau Tai '(BMU) ers yr adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor ym mis Mai, 2012.

Atgoffodd y Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai) Aelodau'r Pwyllgor o argymhellion allweddol o ddau arolwg gwasanaeth blaenorol, y naill yn arolwg ymgynghorol gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r llall yn arolwg gwerth am arian gan gwmni arbenigol. Cyfeiriodd y Swyddog at drydydd arolwg o'r gwasanaeth a gynhalwyd gan yr Archwiliad Mewnol a oedd yn canolbwytio ar drefniadau caffaer yr UCA. Cafwyd, meddai, gynllun gweithredu cynhwysfawr o ganlyniad i'r tri arolwg beirniadol, ei roi ar waith ac egluroedd y cynnydd hyd yma ar gyflwyno'r cynllun gweithredu. Bydd gwerthusiad opsiynau a gwerthusiad annibynnol o gynnydd yn cael eu gwneud ym mis Chwefror, 2014 a chyflwynir nhw i'r Pwyllgor Gwaith. Bydd adroddiad cynnydd o ran gweithredu ar yr opsiwn a ddewisir yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau a bydd dull rheoli prosiect ffurfiol yn cael ei fabwysiadu.

Gofynnodd yr Aelodau i'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) a oedd hi'n fodlon bod y trawsnewid yn cael ei ddarparu yn unol â'r amserlen ac atebodd yn gadarnhaol gyda'r ychwanegiad bod rhai risgau mewn perthynas â chaffael a chontractau yn parhau. Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio am ddiweddariad pellach ym mis Chwefror i gynnwys opsiynau, amserlenni ac unrhyw risgau cysylltiedig.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**GWEITHREDU YN CODI: Bod y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) yn cyflwyno diweddarriad arall i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod yn Chwefror, 2014.**

## **5 PROSIECT CYFALAF TAIR TREF YNYS MÔN**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd mewn perthynas â'r prosiect Cyfalaf Tair Tref Ynys Môn er gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at drefniadau a fframwaith llywodraethu'r prosiect, yr elfennau cyllido ynghyd ag allbynnau a gyflawnwyd ac a ragwelir.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd i Aelodau'r Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru, dros gyfnod y prosiect, wedi ailbroffilio ei gynllun £ 37m ac o ganlyniad bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi cael nifer o gyfleoedd hefyd i ailbroffilio ac ymestyn sydd yn ei dro wedi caniatâu'r camau a ddisgrifir yn yr adroddiad. Dywedodd y Swyddog bod yr hyn sydd wedi'i weld fel llithriad mewn gwirionedd yn ailbroffilio a gynlluniwyd er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf bosib.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor nifer o gwestiynau ar weithrediad y prosiect mewn perthynas â chwmpas y cynllun grant, gwariant, swyddi a grëwyd a threfniadau tendro a chafwyd arnynt ragor o eglurhad gan y Rheolwr Prosiect. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai mwy o wybodaeth am y prosiect a'r elfennau a gwblhawyd ar gael i'r cyhoedd. Hefyd gofynnodd yr aelodau am ddiweddarriad pellach ar gynnydd y cynllun. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd fod rhestr o gynlluniau ar gael yn gyhoeddus. Bydd adroddiad cau prosiect yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin, 2014 a fydd yn destun archwiliad fel sy'n ofynnol yn ôl cyfraith yr UE ac a fydd ar gael i'r Pwyllgor Archwilio.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**GWEITHREDU YN CODI: Bod y Rheolwr Archwilio yn cydlynu cyflwyno adroddiad diwedd prosiect i'r Pwyllgor Archwilio ar yr adeg briodol.**

## **6 ARCHWILIAD ALLANOL - RHAGLEN WAITH PERFFORMIAD**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor, y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Archwilywyr Allanol ar statws presennol darnau o waith sy'n cael ei wneud ac y bwriedir ei wneud a chafodd y wybodaeth honno ei nodi.

## **7 ARCHWILIAD ALLANOL - LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Lythyr Archwilio Blynnyddol yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Penodedig o dan Ddeddf 2004 Archwilio Cyhoeddus (Cymru) ac yn adrodd ar gyfrifoldebau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Dyweddodd Mr Ian Davies PwC fod y Llythyr yn crynhoi allbwn ffurfiol o'r broses archwilio cyfrifon a adroddwyd yn llawnach i gyfarfod Medi, 2013 y Pwyllgor. Mae'r Llythyr, tra'n cadarnhau bod barn archwilio ddiamond ar y datganiadau cyfrifo, hefyd yn tynnu sylw at yr angen i drefniadau gael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y Gwasanaeth Cyllid â digon o adnoddau a sgiliau priodol i symud ymlaen.

Hysbysodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yr Aelodau bod strwythur yn cael ei weithredu o fewn y Gwasanaeth Cyllid. Cadarnhaodd bod cynlluniau eisoes ar waith ar gyfer cychwyn proses cau cyfrifon 2013/14 ac amlinelloedd i'r Pwyllgor sylwedd y cynlluniau hynny.

**Penderfynwyd derbyn y Llythyr Archwilio Blynnyddol a nodi ei gynnwys.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## **8 TREFNIADAU LLYWODRAETHU A SICRWYDD**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr yn nodi cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Llywodraethu a Sicrwedd ac yn codi o'r adolygiad o Fframwaith Llywodraethu y Cyngor a Datganiad Llywodraethu Blynnyddol 2012/13. Roedd y fersiwn a ddiweddarwyd o'r Cynllun Gweithredu ar Lywodraethu a Sicrwedd wedi ei ddarparu yn Atodiad B ynghlwm wrth yr adroddiad.

Ystyriodd yr Aelodau'r Cynllun Gweithredu a gofyn am eglurhad ar rai pwyntiau ynghylch y trefniadau adrodd ar gyfer y Byrddau Trawsnewid a statws yr ymgynghoriad ar y Polisi a'r Strategaeth Comisiynu a Chaffael. Tynnwyd sylw at absenoldeb dyddiad targed penodedig ar gyfer cynllunio a darparu arbedion sydd eu hangen ar y Cyngor a chan fod y gwaith hwn mor ganolog i fusnes y Cyngor wrth fynd ymlaen, gofynnwyd cwestiynau ynghylch y sefyllfa o ran y cynnydd a wnaed hyd yma.

Dyweddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 bod ymgydio gyda strategaethau ar draws y Cyngor yn rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig ee Strategaeth Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a'r Strategaeth TG. Mae rhai strategaethau yn fwy datblygedig nag eraill. Bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys buddsoddiadau a bydd yn tynnu sylw at y bwlc arbedion dros y pedair blynedd nesaf a fydd yn cael eu talu dan y Strategaeth Effeithlonrwydd. Bydd yn rhaid datblygu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16 yn seiliedig ar feddwl ymlaen tua'r dyfodol yn hytrach nag ar ddull sleisio salami. Y gwaith y bydd angen ei wneud yn y dyfodol agos yw gweithio gyda'r byrddau trawsnewid ac adolygiadau gwasanaeth i bontio'r bwlc arbedion.

Dyweddodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod y Cynllun Trawsnewid wedi cael ei ddatblygu, bod ailstrwythuro wedi digwydd a chapasiti ychwanegol wedi'i ddyrannu, a'r cam cyntaf fydd adnabod yr achos dros newid y canlyniadau refeniw gan fwydo wedyn i'r strategaeth effeithlonrwydd tymor hwy. Hyd yma mae'r gwaith a wnaed yn un o natur ôl-ymyrraeth a nawr yn unig y mae gennym yr amser a'r capaciti i flaengynllunio. Cytunwyd ar y Cynllun Corfforaethol a bydd hwnnw'n gyrru materion yn eu blaen. O ran y meysydd lle gellir adnabod arbedion ee crebwyll miniog ar waith, moderneiddio ysgolion ac ati cyrhaeddwyd cyfnod pryd y gall yr Awdurdod ganolbwytio ar yr yrru'r mentrau hyn ac eraill ymlaen a byddant wedyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn y Strategaeth Effeithlonrwydd. Mae'r rhaglen drawsnewid yn ceisio asio gwelliant mewn gwasanaethau gyda gwell defnydd o adnoddau. Ymhelaethodd y Swyddog ar waith a wneir yn y cyfnod rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol, ynghyd â chamau gweithredu sy'n cael eu cymryd a chadarnhaodd bod yr agenda yn symud.

Nododd yr aelodau bod cynnydd yn digwydd ond nid mor gyflym ag y dymunent ac o ganlyniad gofynnwyd am gael gwybod am y datblygiadau.

#### Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

**GWEITHREDU YN CODI:** Dirprwy Brif Weithredwr i roi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod nesaf am fframwaith a strwythur y Rhaglen Trawsnewid gyda'r bwriad o ddarparu sicrwydd bod y broses yn gallu cyflawni ei thargedau.

## 9 FFRAMWAITH RHEOLI RISG A'R GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL

Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr i'r Pwyllgor ddiweddarriad llafar ar faterion sy'n ymwneud â rheoli risg.

Adroddodd y Dirprwy Brif Weithredwr i'r Aelodau ar bwysigrwydd ymgorffori rheoli risg o fewn yr Awdurdod fel sefydliad. Gwelwyd cynnydd o ran nodi'r risgiau mewn perthynas â'r agenda Trawsnewid ond mae angen gwneud mwy i ymgorffori rheoli risg o fewn y gwasanaethau a chytunwyd gyda Phenaethiaid Gwasanaeth y dylai rheoli risg ddigwydd yn effeithiol o fewn eu gwasanaethau.

Dyweddodd y swyddog bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod rheoli risg ar draws yr Awdurdod yn digwydd yn systematig.

Nododd aelodau'r Pwyllgor bod y mater o reoli risg yn bryder ers tro byd i'r Pwyllgor Archwilio gan dynnu sylw at faint o amser a gymerwyd i weithredu system effeithiol o reoli risg o fewn yr Awdurdod.

Dyweddodd y Rheolwr Archwilio y dylai'r Penaethiaid Gwasanaeth ganolbwytio ar yr hyn sy'n digwydd yn eu gwasanaethau o ran rheoli risg, sut i ymgorffori'r broses yn y gwasanaethau hynny a sut mae hynny wedyn yn cael ei adrodd i fyny i'r gofrestr Risg Corfforaethol fel bod yr UDA fel perchnogion risg a'r Pwyllgor Archwilio fel y fforwm gyda chyfrifoldeb goruchwylio yn cael sicrwydd bod y risgiau yn cael eu rheoli. Mae angen i'r broses o ddarparu adroddiadau a darparu sicrwydd i fyny ac i lawr y sefydliad fod yn glir. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod angen i Benaethiaid Gwasanaeth fod yn

ymwybodol o'r disgwyliadau arnynt o ran rheoli risgiau o fewn eu gwasanaethau a bod angen mynegi'n glir beth yw'r disgwyliadau drwy, er enghraifft, sesiynau datblygu.

#### Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

**GWEITHREDU YN CODI: Dirprwy Brif Weithredwr i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin, 2014 yn nodi i ba raddau y mae rheoli risg wedi cael ei weithredu'n effeithiol o fewn yr Awdurdod ynghyd â'r trefniadau i ddarparu sicrwydd bod hynny'n wir.**

#### 10 ADOLYGIAD O BENODIADAU AELODAU ANNIBYNNOL

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn ymgorffori opsiynau ar gyfer penodi Aelodau Annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio i wasanaethu o fis Gorffennaf, 2014 yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol.

*Wedi iddynt ddatgan diddordeb yn y mater hwn, gadawodd Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes y cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno.*

**Penderfynwyd ymestyn y trefniadau presennol gyda'r Aelodau Annibynnol presennol o fis Gorffennaf, 2014 am ddwy flynedd arall.**

#### DIM GWEITHREDU PELLACH YN CODI

#### 11 ADRODDIAD CYNNYDD AR ARCHWILIAD MEWNOL

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Rheolwr Archwilio ar weithgaredd yr Adain Archwilio Mewnol dros y cyfnod Ebrill-Tachwedd, 2013.

Cyfeiriodd y Rheolwr Archwilio'n benodol at y materion canlynol -

- Allbwn ar ffurf adroddiadau a gyhoeddwyd ers y diweddariad blaenorol
- Adolygiadau archwilio gyda barn Coch neu Goch / Ambr - Credydwyr a'r System Cyfrifyddu Civica
- Perfformiad mewn perthynas â gweithredu argymhellion yr archwiliad mewnol
- Pryderon archwilio cyfredol a chamau gweithredu cysylltiedig
- Argymhellion Categori Uchel na chawsant eu gweithredu a'r meysydd adolygu y maent yn berthnasol iddynt.

Cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol ar y wybodaeth a gyflwynwyd -

- Eglurhad ar y materion sy'n codi o'r adolygiad ar y brif system gyfrifyddu Civica ac a ydynt i'w priodoli i'r cyfarpar Civica ei hun neu i'r defnydd ohono.
- O ran yr adolygiad ymgynghorol ar daliadau asiantaeth, eglurhad ar y defnydd a wna'r Awdurdod o staff asiantaeth ac i ba raddau y dibynnir arnynt o ran y niferoedd dan sylw, costau a pha mor ymarferol yw'r cyfryw ddefnydd yn ariannol.
- A yw'r camau gweithredu yn ddigonol i ddatrys y sefyllfa yng nghyswilt argymhellion categori uchel heb eu gweithredu.

Ymhelaethodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ar y materion a oedd wedi codi yn ystod y cyfnod yn arwain at gyflwyno'r system Civica ac oedd wedi effeithio arni ynghyd â manylion am y camau a gymerwyd wedi hynny. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr wrth yr Aelodau fod yr adran Adnoddau Dynol yn cynnal darn o waith ar staff asiantaeth.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

#### CAMAU YN CODI:

- **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio maes o law wybodaeth ar yr adolygiad ôl-weithredu o'r System Cyfrifyddu Civica**

- Rheolwr Archwilio i gysylltu gyda Phennaeth y Proffesiwn (Adnoddau Dynol) ynghylch darparu i'r Pwyllgor Archwilio adroddiad ar staff Asiantaeth.

## 12 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH BUDDSODDI BLYNYDDOL

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn amlinellu sefyllfa Rheoli'r Trysorlys a materion cysylltiedig fel yr oedd pethau ar ganol blwyddyn ariannol 2013/14.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

DIM GWEITHREDU PELLACH YN CODI

Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones  
Cadeirydd

1

This page is intentionally left blank

<b>Pwyllgor:</b>	Pwyllgor Archwilio
<b>Dyddiad:</b>	4 Chwefror 2014
<b>Teitl yr Adroddiad:</b>	Adolygiad o'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau (UCCA)
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	Diweddu aelodau ar gynnydd a wnaed gydag adolygu'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau (elwid yn flaenorol yn DLO)
<b>Awdur:</b>	Shan Lloyd Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai
<b>Deilydd Portffolio:</b>	Cyngorydd Kenneth P Hughes

## 1.0 Cyflwyniad

**1.1** Cyflwynwyd adroddiad cynnydd i Aelodau'r Pwyllgor yn Rhagfyr 2013 yn erbyn argymhellion adolygiad Gwerth am Arian oedd wedi ei wneud yn flaenorol gan Solutions for Housing ac argymhellion adroddiad a gomisiynwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol. Roedd cynllun gweithredu wedi ei ddatblygu yn cynnwys yr holl argymhellion, gyda'r gwaith gweithredu'n cael ei arwain gan Reolwr Gweithgareddau'r UCCA.

**1.2** Adroddwyd i'r Pwyllgor bod y prosiect trawsnewid wedi ei oedi a bod adolygiad pellach wedi ei gomisiynu gan yr un cwmni. Mae'r adolygiad yn cymryd golwg yn annibynnol ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn yn erbyn y cynllun gweithredu trawsnewid, gwerthusiad opsiynau ar gyfer darparu Gwasanaeth Trwsio a Chynnal a Chadw'r UCCA, ynghyd â'r gweithredu a'r costau o fewn yr opsiynau a nodwyd.

**1.3** Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio am ddiweddariad pellach ym mis Chwefror i gynnwys opsiynau, amserlenni ac unrhyw risgiau cysylltiedig.

## 2.0 Adolygiad hyd yma

**2.1** Bu dau ymgynghorydd sy'n gweithio i Solutions for Housing ar y safle hyd yn hyn (o 20/01/14).

Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol i ddechrau prosiect ar 10 Ionawr, 2014 gyda staff UCCA a chleient Trwsio a Chynnal a Chadw ynghyd â chynrychiolwyr o Cyllid, Adnoddau Dynol a'r Tîm Rheoli Gwasanaethau Tai. Yn y cyfarfod, fe gadarnhawyd y canlynol:

- Cyfngiadau a pharamedrau ar y gwaith;
- Amserlenni ar gyfer adolygu a cherrig milltir allweddol;
- Gweledigaeth a dyhead y Gwasanaeth Tai a'i anghenion ar gyfer y Gwasanaeth Trwsio;
- Gofynion ymgysylltiad cydranddeiliaid;
- Y dogfennau oedd eu hangen ar gyfer yr adolygiad;
- Cynllun Cyfathrebu.

## **2.2 Digwyddiad Gwerthuso Opsiynau – dyfodol Trwsio a Chynnal a Chadw**

Cynhaliwyd digwyddiad Gwerthuso Opsiynau ar 16 Ionawr, 2014 gydag aelodau staff ychwanegol o'r UCCA a chleient a Thîm Rheoli Gwasanaethau Tai. Bu'r digwyddiad yn edrych ar:

- Dyheadau lefel uchel ar gyfer gwasanaeth trwsio;
- Y perfformiad cyfredol a'r bwlch i gyrraedd "rhagoriaeth";
- Nodi opsiynau ar gyfer y gwasanaeth;
- Cryfderau, manteision, gwendidau a risgiau pob opsiwn;
- Materion gweithredu ar gyfer pob opsiwn;
- Cafwyd cytundeb ar y model sgorio ar gyfer y gwerthusiad opsiynau.

## **2.3 Yr opsiynau yr edrychir arnynt fel rhan o'r adolygiad yw:**

- Darpariaeth fewnol (h.y. UCCA) gyda rhaniad cleient / contractwr ond ar sail partneriaeth;
- Darpariaeth fewnol heb y rhaniad cleient / contractwr;
- Gwaith allanol (wedi ei allanol) yn unig;
- Allanol gyda chleient a gwaith;
- Allanol pwyntiau o'r gwasanaeth;
- Menter ar y cyd;
- Menter gymdeithasol;
- Modelau eraill.

## **2.4 Bydd adborth llafar yn cael ei roi i Aelodau'r Pwyllgor ar gynnydd ers ysgrifennu'r Adroddiad (20/01/14).**

### **3.0 Camau nesaf a cherrig milltir allweddol**

**3.1** Mae'r Ymgynghorwyr ar y safle i gynnal adolygiad manwl o'r dystiolaeth o gynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun trawsnewid yn yr wythnos nesaf a hefyd edrych ar y strwythur a'r costau cyfredol ac ati.

**3.2** Bydd y digwyddiad terfynol yn cael ei gynnal ar 11/02/14 lle bydd yr un Swyddogion a fynychodd y digwyddiad ar 16 Ionawr 2014 yn cael eu gwahodd i fynychu .

**3.3** Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith am benderfyniad ar opsiwn a ddewiswyd i'r dyfodol ym Mawrth / Ebrill 2014. Bydd yr adroddiad terfynol, fel sy'n arferol yn cael ei gyflwyno hefyd i'r Pwyllgor Archwilio ac i Fwrdd Trawsnewid Ynys Fenter.

**3.4** Bydd y Cynllun Gweithredu ar gyfer pa opsiwn bynnag a ddewisir yn cael ei reoli fel prosiect drwy ddefnyddio'r fframwaith rheoli prosiect corfforaethol. Beth bynnag fydd yr opsiwn a ddewisir, bydd angen caffael cefnogaeth ymgynghoriaeth arbenigol i reoli'r broses gaffael gyfan. Mae yna hefyd debygolrwydd y bydd cost sylweddol o ran amser staff mewnol fydd ei angen i sefydlu'r trefniadau newydd tra'n dod â'r hen drefniadau (cyfredol) i ben.

**3.5** Mae'n bosibl y ceir costau pellach yng nghyswilt cyfraith cyflogaeth a chyngor pensiwn mewn perthynas â materion TUPE (os yn allanoli'r gwasanaeth).

**3.6** Ar gyfer datrysiau mewnol, bydd cost ynglwm ag ymgynghorwyr newid trawsnewidiol arbenigol i helpu'r tîm i gyrraedd y safonau sydd eu hangen o ran perfformiad ac ansawdd.

**3.7** Dylid nodi y gall rhai neu'r cyfan o'r costau hyn gael eu rhoi yn erbyn gwaith cynhyrchu arbedion o fewn y gwasanaeth newydd modern.

### **4.0 Argymhellion**

**4.1** Bod Aelodau'r Pwyllgor Archwilio'n nodi'r cynnydd hyd yn hyn o'r adolygiad.

**Awdur yr Adroddiad:** Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai

**Dyddiad:** 20 Ionawr, 2014

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD	4 CHWEFROR 2014
PWNC	RHEOLI'R TRYSORLYS – TRYDYDD CHWARTER 2013/14
SWYDDOG(ION) ARWEINIOL	CLARE J WILLIAMS
SWYDDOG CYSWLLT	CLARE J WILLIAMS (FFÔN: 2601)
<b>Natur a rheswm dros adrodd</b>	
I'w sgriwtineiddio - yn gyson ag arweiniad proffesiynol.	

- Cyflwynir yr adroddiad hwn i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â Chôd Ymarfer ar Reoli Trysorlys a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) yn ac sy'n argymhell diweddar Aelodau ar weithgaredd rheoli trysorlys o leiaf ddwy waith y flwyddyn, a gorau oll yn chwarterol.
- Rhoes ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor (Capita Asset Services) sylwebaeth ar gefndir economaidd (Atodiad A) a'r rhagolygon economaidd (Atodiad 2) ynghyd â'r rhagolygon llog yn y tabl isod:-

	Med-14	Meh-14	Med-14	Rhag-14	Maw-15	Meh-15	Med-15	Rhag-15	Maw-16	Meh-16	Med-16	Rhag-16	Maw-17
Graddfa Banc	0.50%	0.50%	0.50%	0.50%	0.50%	0.50%	0.50%	0.50%	0.50%	0.75%	1.00%	1.00%	1.25%
Graddfa 5ml PWLB	2.50%	2.60%	2.70%	2.70%	2.80%	2.80%	2.90%	3.00%	3.10%	3.20%	3.30%	3.40%	3.40%
Graddfa 10ml PWLB	3.60%	3.70%	3.80%	3.80%	3.90%	3.90%	4.00%	4.10%	4.20%	4.30%	4.30%	4.40%	4.50%
Graddfa 25ml PWLB	4.40%	4.50%	4.50%	4.60%	4.60%	4.70%	4.80%	4.90%	5.00%	5.10%	5.10%	5.10%	5.10%
Graddfa 50ml PWLB	4.40%	4.50%	4.50%	4.60%	4.70%	4.80%	4.90%	5.00%	5.10%	5.20%	5.20%	5.20%	5.20%

- 2.1** Mae'r tabl uchod yn cynrychioli barn Capita Asset Services yn dilyn adolygiad o'i ragamcanion ynghylch graddfeydd llog yn hwyr yn Nhachwedd. Adlewyrchwyd hyn yn yr adroddiad rheoli trysorlys canol blwyddyn.
- Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd prifffolio benthyca'r Cyngor i gyd o PWLB ac roedd £10.3m yn is na'r Angenrhaid Cylliado Cyfalaf (CFR) (h.y. rhan o'r benthyca wedi ei fewnoli). Erbyn diwedd y flwyddyn, rhagwelir bydd y GCC yn £114m, ac, o ganlyniad, mae gofyn i fenthyca £25m. Dywed y datganiad strategaeth rheoli'r trysorlys (Adran 3.5.1) y bydd angen mabwysiadu agwedd hyblyg mewn perthynas â'r dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Parheir i ddilyn y dull hwnnw o weithredu a rhoddir sylw i'r holl ffactorau a restrir yn yr adran honno. Mae'r penderfyniad i barhau i fewnoli wedi ei yrru'n bennaf gan 2 ffactor: (1) cyfyngu risg credyd i'r Awdurdod (2) cyfyngu cost cario. Mae hyn yn erbyn cefndir o gyfraddau buddsoddi a chyfraddau PWLB sy'n parhau i fod yn hanesyddol o isel, gyda dim ond cynnydd graddol yn cael ei ragweld i'r tymor canol. Mae'r dull hwn o weithredu yn gyson â'r hyn a wneir gan lawer o awdurdodau lleol eraill a holwyd mewn seminarau a gweithdai y bu swyddogion cyllid yn bresennol ynddynt. Mae'r ymgynghorwyr a benodwyd ar gyfer y trysorlys (Capita Asset Services) hefyd wedi cefnogi'r penderfyniad i barhau i fenthyca'n fewnol ar hyn o bryd. Erbyn diwedd y flwyddyn rhagwelir y bydd benthyca allanol yn £90m. Rhoddir gwybod am unrhyw newidiadau i'r dull cyfredol o weithredu fel sy'n briodol.

4. Mae'r tabl isod yn dangos y benthyciadau a buddsoddiadau ar gychwyn ac ar ddiwedd y chwarter:-

	31 Rhagfyr 2013		30 Medi 2013	
	£m	%	£m	%
Benthyc - graddfa sefydlog	89.6	5.58	96.1	5.53
Benthyc - graddfa amrywiol	Nil	n/a	Nil	n/a
Adneuon - Ar gael i 30 diwrnod	9.4	0.50	14.7	0.67
Adneuon - Cyfnod Sefydlog < 1 blwyddyn	5.0	0.80	10.0	1.27
Adneuon - cyfnod sefydlog 1 blwyddyn +	Nil	n/a	Nil	n/a
Cyfanswm yr Adneuon	14.4	0.60	24.7	0.90
Yr Adneuon ar gyfartaledd yn y Chwarter	24.6	0.69	26.0	0.88

- 4.1** Fel adroddwyd yn yr adroddiad canol blwyddyn aeddfedodd dau gyfrif adnau tymor sefydlog yn y chwarter: roedd un yn gyfrif adnau 6 mis, am £5m gyda Banc Brenhinol yr Alban (RBS) ar gyfradd o 0.95% ac roedd y llall yn gyfrif adnau 364 Diwrnod, £5 m gyda RBS ar gyfradd o 1.58%. Ailfuddsoddiwyd y cyntaf yn llawn gydag RBS am 3 mis ar gyfradd o 0.8%. Ailfuddsoddiwyd ar ail gydag RBS ar sail galw yn unig ar gyfradd o 0.6% ar y pryd. Ailfuddsoddiwyd yr ail ar sail galw yn unig er mwyn cadw hyblygrwydd. Gostyngwyd graddfa credyd RBS gan Standard & Poor yn ystod y chwarter o un lefel ar y graddfeydd tymor byr a thymor hir; nid oedd hyn yn symud y banc y tu allan i feini prawf buddsoddi'r Cyngor, fel sydd wedi ei nodi yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, oherwydd bod y banc wedi ei wladoli'n rhannol. Gwnaed y penderfyniad i ail-fuddsoddi gydag RBS yn bennaf oherwydd ei fod wedi ei wladoli'n rhannol sy'n ei wneud yn un o'r gwrthbartion sydd fwyaf teilwng i gredyd; roedd y penderfyniad hwn i fuddsoddi gydag RBS yn cael ei gefnogi gan Capita Asset Services.
- 4.2** Yn ogystal, am yr un rhesymau adroddwyd arnynt ynghynt, mae buddsoddiadau wedi parhau gyda Santander ar sail alwad yn unig.
- 4.3** Fel trafodwyd uchod, yr unig newid yng ngraddfeydd credyd y gwrthbartion rydym yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd oedd i RBS.
- 4.4** Mae manylion am y sefydliad sydd ag adneuon ar gael yn Atodiad 3.
- 4.5** Mae dau bwynt sy'n werth eu nodi yng nghyswilt yr hinsawdd buddsoddi;
- Mae rhestr o wrthbartion sy'n gymeradwy o ran credyd yn parhau i fod yn gyfyngedig iawn, gydag ond ychydig iawn o wrthbartion sy'n bodloni'r mein prawf wedi eu cymeradwyo yng nghyswilt credyd; ac
  - Mae'r cyfraddau buddsoddi sydd ar gael yn y farchnad wedi parhau ar lefelau sy'n hanesyddol isel.
- 4.6** Fel y cyfeiriwyd ato yn Adran 3, ni chafwyd unrhyw fenthyca allanol yn ystod y chwarter hwn. Hefyd, mae'r cyfleon i aildrefnu dyledion wedi parhau i fod yn brin yn yr hinsawdd economaidd gyfredol ac yn dilyn y cynnydd yn yr ymwl a ychwanegir at enillion gilt sydd wedi cael effaith ar gyfraddau benthyc newydd PWLB ers Hydref 2010. Ni ad-drefnwyd unrhyw ddyledion yn ystod y chwarter hwn.
- 5.** Yn ystod y chwarter, bu modd i'r Cyngor gadw o fewn ei Gyfyngiadau Pwylllog a Thrysorlys.
- 6.** 'Roedd cyllideb y Cyngor ar gyfer eleni yn cynnwys darpariaeth refeniw ar gyfer posibilrwydd o fenthyca digefnogaeth. Bydd gofyn i'r Cyngor Sir gymeradwyo unrhyw angen i gael benthyg rhagor o arian o'r fath.

7. Ni wnaed unrhyw fuddsoddiadau i'w nodi ers diwedd y chwarter ac ni fenthycwyd unrhyw arian newydd ac ni chafodd unrhyw ddyledion eu hailandrefnu.
8. Y cynlluniau ar gyfer gweddill y flwyddyn yw:
  - Parhau i fuddsoddi balansau sy'n weddill mewn modd sy'n sicrhau diogelwch ynghyd â hylifedd a chynnrych;
  - Parhau i fewnoli benthyca tra'n monitro'r farchnad yn rheolaidd;
  - Monitro'r farchnad fel y gellir aildrefnu ar adeg briodol os daw cyfleon ar gael; ac
  - Ymateb i gynlluniau posib ar gyfer defnyddio benthyca digefnogaeth neu gymorth benthyca unwaith ac am byth.

## 9. ARGYMHELLIAD

Ystyried cynnwys yr adroddiad.

## Cefndir Economaidd / Economic Background

- During the quarter ended 30<sup>th</sup> June (the second calendar quarter):-
  - Indicators suggested that the economy accelerated;
  - Stronger household spending, both on and off the high street;
  - Inflation remained stubbornly above the MPC's 2% target;
  - The MPC remained in a state of limbo ahead of Mark Carney's arrival;
  - 10-year gilt yields rose above 2.5% and the FTSE 100 fell below 6,100;
